



Byddwch yn gall o gwmpas tanau a defnyddiwch Gynllun Gweithredol ar gyfer Tanau Gwyllt

Beth yw Firewise Cymru?

Mae tanau gwyllt yn dânau heb eu reoli sy'n digwydd mewn llystyfiant - y cyfeirir ato'n aml yn dân glaswellt - sy'n ymwneud â rhostir, glaswelltir, coedwig, neu dir amaethyddol. Gall gael effaith ddinistriol ar gartrefi cyfagos, felly mae'n bwysig iawn bod pobl sy'n byw'n agos at yr ardaloedd hyn yn barod.

Mewn partneriaeth â:



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru
South Wales
Fire and Rescue Service



Llethrau Llon
Healthy Hillides



Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cefnogi cymunedau i gymryd camau ymarferol o gwmpas eu cartrefi a'u gerddi i leihau'r risg o danau gwyllt.

Mae'r daflen hon yn amlinellu'r camau y gallwch eu cymryd i amddiffyn eich hun a'ch cymdogion ill dau pe byddai tân gwyllt yn digwydd. Cadwch y rhestr wirio diogelwch cartref, cynllun gwacau a'r daflen hon wrth law fel eich bod yn gwybod beth i'w wneud pan fydd argyfwng.

Cynllun Gwacau

Pan fydd angen gweithredu, cadwch yn ddiogel trwy ymgyfarwyddo â chynllun gwacáu. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi bacio'ch pethau pwysig yn barod mewn bag neu focs. Dylech chi gynnwys eitemau gwerthfawr, meddyginiaeth, arian a dillad. Tynnwch luniau o ddogfennau a phasbortau pwysig (gan gynnwys rhifau polisïau).

Mewn argyfwng EWCH ALLAN ac ARHOSWCH ALLAN

- 1 Ffoniwch 999** a gofynnwch am y Gwasanaeth Tân, gan nodi eich lleoliad a'r pwyntiau mynediad agosaf.
- 2 Sicrhewch** fod eich car yn wynebu'r ffordd iawn i wacáu'n ddiogel heb orfod bacio'r car yn ôl.
- 3 Peidiwch** â mynd i'r afael â'r tân eich hun.
- 4 Dilynwch** gyngor ac arweiniad gan y gwasanaethau brys neu'r awdurdod lleol.

Rhestr Wirio Diogelwch Tân yn y Cartref

Diogelu eich cartref

- Cymerwch gamau i atal marwor rhag mynd i mewn i'ch atig trwy atgyweirio / ailosod teils rhydd neu rai sy wedi torri.
- Nodwch lefydd lle gall farwor hel o gwmpas eich cartref megis manau lle mae dail marw yn casglu'n naturiol, a'u clirio, e.e. cwteri, dyffrynnoedd to, ac ati.
- Dylech drwsio unrhyw fylchau yn y bondo er mwyn sicrhau nad fydd coed sy'n llosgi yn mynd i'ch to. Mae'n ofyniad cyfreithiol arnoch i geisio cyngor os ydych yn amau bod ystumod yn presennol.
- Symudwch unrhyw ddeunydd fflamadwy oddi wrth waliau allanol y tŷ megis dail, tomenni compost, pentyrrou o foncyffion ac ati.
- Sicrhewch fod enw/rhif eich tŷ i'w weld yn glir o'r ffordd er mwyn helpu'r gwasanaethau brys i ymateb yn gyflym.

Diogelu eich gardd

- Torrwch llwyni neu goed sy'n agos at eich tŷ neu sy'n cyffwrdd â'ch tŷ a gwardwch ar y gwastraff yn gyfrifol. Peidiwch â rhoi gwastraff dros eich ffens gan ei fod yn ychwanegu at y risg o dân yn agos at eich cartref.

- Ystyriwch waredu ar unrhyw blanhigion sy'n cynnwys olewau a resinâu ac ati, yn enwedig os ydynt yn agos at eich tŷ neu fel arall plannwch nhw mewn potiau symudol.
- Cadwch blanhigion ac eitemau fflamadwy ar wahân, gan gynnwys coed, llwyni, pentyrrou o foncyffion a dodrefn patio.
- Yn ystod cyfnodau poeth a sych sicrhewch fod eich gardd yn cael ei chynnal a'i chadw a'i dyfrio'n rheolaidd.
- Lleolwch eich sied i yn ddigon pell o'ch cartref i leihau'r risg o dân yn teithio.



Y tu hwnt i'ch gardd

Os yw'ch eiddo ar gyrion man gwyrdd neu'n agos ato, y rheolwr tir sy'n gyfrifol am reoli'r risg i'r tir hwnnw. Mae perchnogion/rheolwyr tir rhostir a choedwigaeth, gyda chynghor gan Gyfoeth Naturiol Cymru, yn rheoli'r cynefin er mwyn ei gynnal ar gyfer rhywogaethau allweddol. Mae'r cynefinoedd hyn o bwysigrwydd rhyngwladol yn destun cyfyngiadau cyfreithiol a bydd rheolwyr tir yn asesu risg tân ac yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Tân mewn cartrefi cyfagos.

I gael rhagor o wybodaeth am sut i fod yn 'Firewise' a gwneud Cynllun Tanau Gwyllt Gweithredol, sganiwch y cod QR isod neu teipiwch bit.ly/Firewise-Cymru i borwr gwe.



SGANIWCH FI



@HillsidesWales



@Hillsides_Wales

www.decymru-tan.gov.uk
www.naturalresources.wales